**Pecyn Gweithgareddau**

# YR HUGAN FACH GOCH

**Gan Katie Elin-Salt**



Fersiwn Gymraeg

## TROSOLWG

Mae'r pecyn yma'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau i blant y gallwch eu gwneud mewn unrhyw drefn, un ai'n annibynnol, gydag oedolyn, neu mewn lleoliad grŵp. Os ydych chi'n ei ddefnyddio cyn gweld *Yr Hugan Fach Goch*, neu ar ôl ei gweld, gobeithio y bydd yn ysbrydoli llwyth o greadigrwydd ac y byddwch chi'n mwynhau archwilio prif themâu'r sioe.

Os ydych chi'n dod i weld *Yr Hugan Fach Goch* gyda'r ysgol neu'r feithrinfa, cadwch lygad am ein *Syniadau i Athrawon* sy'n cynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau ymestyn i'ch ystafell ddosbarth neu'ch lleoliad chwarae.

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **HELPWCH YR HUGAN FACH GOCH I GYFRI ANRHEGION** | Tudalen 3 |
| **CREU BLWCH RHODD** | Tudalen 4 a 5 |
| **YR ANRHEG GORAU ERIOED** | Tudalen 6 |
| **TAITH YR HUGAN FACH GOCH DRWY'R GOEDWIG** | Tudalen 7 |
| **CREU MWGWD BLAIDD** | Tudalen 8 |
| **CHWILAIR YR HUGAN FACH GOCH** | Tudalen 9 |
| **CREU PWDIN DOLIG** | Tudalen 10 a 11 |
| **YR HYN *SYDD* TU MEWN *SY'N* BWYSIG** | Tudalen 12 |
| **CADW LLYGAD AM UNIGRWYDD** | Tudalen 13 |
| **BETH WELL NAG ANRHEGION?** | Tudalen 14 |





Theatr y Sherman 2024. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

# GWEITHGAREDD 1: HELPWCH YR HUGAN FACH GOCH I GYFRI ANRHEGION

Ar ddechrau'r ddrama, mae'r Hugan Fach Goch yn meddwl mai anrhegion yw'r peth pwysicaf am y Nadolig. Allwch chi ei helpu i gyfri faint o anrhegion mae hi wedi'u cael? Yn gyntaf, cyfrwch faint o bob math o anrheg mae hi wedi'i gael, ac yna cyfrwch y cyfanswm.


Efallai y byddai'n syniad rhoi cod lliw i'r anrhegion!



|  |  |  |  | Faint o anrhegion sydd yno i gyd ? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

## GWEITHGAREDD 2: CREU BLWCH RHODD


Dyma dempled i greu eich blwch rhodd eich hun. Bydd angen cardfwrdd neu bapur trwchus, siswrn a glud ar gyfer y gweithgaredd yma. Meddyliwch sut byddwch chi'n addurno eich blwch rhodd. A fyddwch chi'n defnyddio patrymau Nadoligaidd, lliwiau llachar, neu'n chwilio am ruban i'w glymu?






Theatr y Sherman 2024. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

*Torrwch at y llinell blygu yn unig, a gludwch y 4 tab i lynu ochrau caead eich blwch*



***Syniad i Athrawon:*** *Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu gweithred dda neu weithred o garedigrwydd ar ddarn o bapur, a'i roi yn eu blwch rhodd i'w roi i rywun arall yn y dosbarth, neu i aelod o'u teulu.*

# GWEITHGAREDD 3: YR ANRHEG GORAU ERIOED

Pan mae'r Hugan Fach Goch yn cael clogyn newydd gan Mam-gu, mae'n meddwl mai dyma'r *"anrheg gorau erioed"* gan y bydd hi'n edrych yn *"cŵl"* yn yr ysgol. Beth fyddai'r anrheg gorau erioed i chi? Efallai mai pâr o sgidiau sy'n gwneud i chi hedfan fydd e, neu het sy'n gwneud eich gwaith cartref, neu frwsh paent hudol sy'n paentio lluniau sy'n dod yn fyw!

Gadewch i'ch dychymyg fynd yn wyllt, cyn tynnu llun neu ddisgrifio eich anrheg gorau erioed:




Theatr y Sherman 2024. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

## GWEITHGAREDD 4: TAITH YR HUGAN FACH GOCH DRWY'R GOEDWIG

Mae'r Hugan Fach Goch eisiau aros adre a chwarae gyda'i theganau, ond mae ei mam yn ei hanfon i dŷ Mam-gu i ddweud diolch.

Allwch chi ei helpu i ddod o hyd i'r ffordd drwy'r goedwig?




***Syniad i Athrawon:*** *Ewch am dro hydrefol yn y goedwig a chreu gludwaith o'r trysor rydych chi'n dod o hyd iddo. Ewch ar daith ddychmygol drwy'r goedwig a chreu seinwedd o'r holl bethau gallech chi eu gweld a'u clywed.*


Theatr y Sherman 2024. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

# GWEITHGAREDD 5: CREU MWGWD BLAIDD

Yn y sioe, mae'r Blaidd Mawr Drwg yn gwisgo cuddwisg er mwyn twyllo'r Hugan Fach Goch i roi ei chlogyn newydd iddo, ond gyda'r mwgwd yma, gallwn ni esgus mai'r Blaidd Mawr Drwg ydyn ni!





Theatr y Sherman 2024. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

## GWEITHGAREDD 6: CHWILAIR YR HUGAN FACH GOCH

Allwch chi ddod o hyd i'r holl eiriau sy'n ymwneud â'r stori sydd wedi'u cuddio yn y chwilair yma?

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | S | S | C | V | E | B | O | X | R | F | M | N | C | B |
| S | V | T | O | V | C | L | O | G | Y | N | A | E | I | L |
| Y | B | Y | C | D | X | J | S | E | D | F | M | T | H | A |
| R | A | D | H | L | C | O | E | D | W | I | G | W | R | I |
| P | O | P | L | O | G | A | I | D | D | A | U | T | E | D |
| T | A | N | R | H | E | G | B | D | A | N | N | E | D | D |
| R | H | L | L | Y | G | A | I | D | P | Q | G | E | S | D |
| W | F | F | R | I | N | D | B | T | O | X | R | N | J | B |
| Y | U | E | K | Z | V | A | D | C | M | E | F | T | Z | G |
| N | H | C | S | K | C | U | D | D | W | I | S | G | R | P |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **COEDWIGWR** | **ANRHEG** | **CUDDWISG** | **BLAIDD** |
| **MAMGU** | **POBLOGAIDD** | **CLOGYN** | **LLYGAID** |
| **DANNEDD** | **TRWYN** | **FFRIND** | **COCH** |


Theatr y Sherman 2024. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

# GWEITHGAREDD 7: CREU PWDIN DOLIG RICE KRISPIES

Yn yr Hugan Fach Goch, mae'r Coedwigwr rydyn ni'n ei gwrdd yn y goedwig yn dweud bod anrhegion ei ferch wedi'u dinistrio mewn tân, ar ôl damwain wrth wneud Pwdin Dolig. Rhowch gynnig ar greu eich Pwdin Dolig eich hun, fydd ychydig yn fwy diogel gobeithio!



## CYNHWYSION:

- 200g o siocled llaeth
- 180g o falws melys bach
- 50g o fenyn
- 100g o Rice Krispies
- 50g o siocled gwyn
- Eisin sy'n barod i'w rolio.
- Jel Lliw Bwyd Gwyrdd a Choch

**CAM 1:** Ychwanegwch y siocled a'r menyn i sosban, a'u toddi'n araf dros wres isel i ganolig.

**CAM 2:** Yna, ychwanegwch y malws melys bach a throwch y cyfan yn araf tan iddyn nhw doddi a chymysgu.

**CAM 3:** Mewn powlen gymysgu fawr, ychwanegwch y Rice Krispies. Arllwyswch y cymysgedd malws melys a siocled drosto, a throwch y cyfan tan fod popeth wedi'i orchuddio. Gadewch i'r cymysgedd oeri.

**CAM 4:** Gan ddefnyddio llwy fwrdd, rhannwch y cymysgedd yn rhannau cyfartal, a rholiwch bob un yn bêl bwdin. Gwlychwch eich dwylo ychydig cyn rholio, mae'n helpu'r pwdin rhag glynu gormod i'ch dwylo.

**CAM 5:** Rhowch nhw ar hambwrdd pobi wedi'i leinio â phapur pobi. Gadewch i'r pwdin oeri yn yr oergell am 30 munud.

**ADDURNO**

**CAM 6:** Toddwch y siocled gwyn drwy ychwanegu'r siocled i fowlen fach wrth-wres, a'i rhoi uwch ben sosban o ddŵr sy'n mudferwi. Gwnewch yn siŵr nad yw'r fowlen yn cyffwrdd â'r dŵr. Cynheswch tan fod yr holl siocled wedi toddi.

**CAM 7:** Rhowch y siocled tawdd mewn bag peipio neu fag rhewgell, a'i adael ar yr ochr i oeri.

**CAM 8:** Lliwiwch eisin gwyn gyda'r jel lliw bwyd coch a gwyrdd. Defnyddiwch y gwyrdd ar gyfer y dail celyn, a rholiwch y coch yn beli bach fel aeron.

**CAM 9:** Pan fydd y pwdinau wedi oeri, torrwch ben y bag peipio neu gornel y bag rhewgell, a thaenwch y siocled gwyn dros ben y cyfan. Addurnwch â'r celyn a'r aeron.

# GWEITHGAREDD 8: YR HYN SYDD TU MEWN SY'N BWYSIG!

Yn yr Hugan Fach Goch, mae pawb eisiau'r clogyn coch gan eu bod nhw'n meddwl y bydd yn eu gwneud nhw'n fwy poblogaidd. Ond, maen nhw'n dysgu nad oes rhaid i chi 'ffitio i mewn' i ddod o hyd i ffrind, a bod pwy ydych chi tu mewn yn bwysicach na beth rydych chi'n ei wisgo, a sut rydych chi'n edrych.

Yn y gofod isod, gwnewch hunanbortread, ac o gwmpas y llun, ysgrifennwch y pethau sy'n eich gwneud chi'n chi *ar y tu mewn*. Gallai hyn gynnwys hobïau a diddordebau, meddyliau a theimladau, a hefyd nodweddion eich personoliaeth chi!

***Syniad i Athrawon:*** *Gwnewch wal arddangos o hunanbortreadau'r plant a thrafodwch beth 'sydd tu mewn i'w pennau'.*


Theatr y Sherman 2024. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

## GWEITHGAREDD 9: CADW LLYGAD AM UNIGRWYDD

Pan mae'r Hugan Fach Goch yn cwrdd â'r Blaidd Mawr Drwg, dydy hi ddim yn gyfeillgar iawn wrtho. Ond, mae e'n dweud wrth y gynulleidfa nad yw e'n berson drwg o gwbl, ond ei fod ychydig yn flin gan ei fod e'n unig. Isod mae rhesymau pam gall rhai pobl deimlo'n unig, a syniadau gall pobl eraill eu gwneud i godi eu calon.

Allwch chi gyfateb y broblem gyda datrysiad drwy dynnu llinell rhyngddyn nhw?

| | |
|---|---|
| **Teimlo'n wahanol** | **Eu gwahodd nhw i ymuno yn eich gêm** |
| **Bod mewn amgylchedd newydd** | **Gofyn iddyn nhw ydyn nhw'n iawn, a'u helpu i ddod o hyd i oedolyn i siarad gyda nhw** |
| **Teimlo'n swil** | **Gofyn os hoffen nhw i chi eu tywys o gwmpas** |
| **Bod â phroblem a ddim yn gwybod gyda phwy i siarad** | **Gwenu neu chwifio arnyn nhw** |
| **Neb i chwarae gyda nhw** | **Dod i adnabod y person a chanfod beth sydd gennych chi'n gyffredin** |

Allwch chi feddwl am ffyrdd eraill o fod yn ffrind da, a'u hysgrifennu isod?

***Syniad i Athrawon:*** *Os ydych chi yn yr ysgol, meddyliwch am wahanol sefyllfaoedd lle gall plant gefnogi a gofalu am ei gilydd. Beth am roi cynnig ar chwarae rôl gyda rhai o'r sefyllfaoedd yma, a gweld pa syniadau eraill sydd gan y plant ar gyfer cael gwared ag unigrwydd.*


Theatr y Sherman 2024. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

## GWEITHGAREDD 10: BETH WELL NAG ANRHEGION?

Ar ddiwedd *Yr Hugan Fach Goch*, rydyn ni'n dysgu nad anrhegion yw'r peth pwysicaf o gwbl. Beth sydd fwyaf pwysig i chi? Allwch chi greu rhestr o'r pum peth sydd bwysicaf i chi?

Y PUM PETH PWYSICAF I FI

1. ____________________

2. ____________________

3. ____________________

4. ____________________

5. ____________________

Mae'r gwyliau'n amser gwych am sgwrs, felly siaradwch gyda'ch ffrindiau a'ch teulu am yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw hefyd.

***Syniad i Athrawon:*** *Gofynnwch i'r plant ofyn y cwestiwn yma i'w teulu a dod â'u hatebion i mewn, yna crëwch siart dosbarth o'r holl ymatebion.*


Theatr y Sherman 2024. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk